"A"

# CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun 10fed Mawrth, 2025**, yn Festri Capel Hebron, Llangwnnadl o 7.30 p.m. hyd 8.30 p.m.
Presennol: Y Cynghorydd Michael Strain (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Elin Hughes, Dylan Parry Jones, Glyn Roberts, Efan Thomas, Carys E. Williams, Glenys Williams, Iwan J. Williams
Ymddiheuriadau: Y Cynghorwyr Carys H. Evans, Gwenan Griffiths, Siôn Williams,
Y Cynghorydd Gareth Williams (Cynghorydd Pen Draw Llŷn ar Gyngor Gwynedd)

## 97. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

**Croesawodd** y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

## 98. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad.

## 99. CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIWYD 10fed CHWEFROR, 2025

**Cyflwynwyd,** cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd 10fed Chwefror, 2025.

(Cynigiwyd gan Y Cynghorydd Dylan Parry Jones ac eiliwyd gan Y Cynghorydd Glenys Williams gyda phawb yn cytuno).

**Materion yn codi**

**Eitem 89 – Materion Ffyrdd a Llwybrau**

**Adroddwyd** fod Mr. Martin Owen, Penybont, Botwnnog, wedi barbio'r gwrych rhwng Trewen a'r Gwaith Dŵr ym Motwnnog. **Diolchwyd** iddo.

**Eitem 95 – Lloches bws ym Motwnnog**

**Adroddwyd** fod y lloches bws bellach wedi cael ei gludo i gartref Y Cynghorydd Dylan Parry Jones. Mae hysbyseb wedi ei osod yn rhifyn Chwefror o Llanw Llŷn yn gwahodd tendrau a bydd yn angenrheidiol fod gan y person/cwmni sydd yn gosod y lloches, y cymhwyster priodol, sy'n rhoi'r hawl iddynt i weithio ar y ffordd fawr. Gofynnwyd i'r Cynghorydd Dylan Parry Jones baratoi cynllun o'r gwaith os byddai angen. O ran gwerth bydd angen yswirio'r lloches hyd at £6,000. Nodwyd hefyd ymhellach fod Y Cynghorydd Gareth Williams (Y Cynghorydd Sir) mewn cysylltiad â Rheolwraig Meddygfa Rhydbach ynglyn a'r lleoliad a.y.

**Penderfynwyd** nodi'r wybodaeth.

## 100. CEISIADAU CYNLLUNIO

**Cyflwynwyd** cais C22/0637/32/LL – cais llawn ar gyfer datblygiad yn cynnwys 8 tŷ fforddiadwy ynghyd a gwaith cysylltiol ar safle eithrio Gwledig (cam 1 o 2) – tir ger Congl Meinciau, Botwnnog.

Trafodwyd y cais a **phenderfynwyd** o bump pleidlais (gyda dau o blaid) i wrthwynebu'r cais ar hyn o bryd gan fod peth amheuaeth fod y cais am adeiladu 18 o dai yng Nghae Capel, Botwnnog, yn mynd i Apêl. Petai'r Apêl yn llwyddo byddai datblygiad sylweddol yn digwydd ym mhentref Botwnnog – 18 tŷ yng Nghae Capel a 8 tŷ yng Nghongl Meinciau – byddai hyn yn trawsnewid y pentref yn gyfangwbl ac yn niwediol, ac hefyd yn rhoi mwy o bwysau ar y gwasanaethau a gynigir yn y pentref.

101. **MATERION FFYRDD A LLWYBRAU**

**Nodwyd** fod gwaith wedi ei gwblhau ger Bwthyn Gwyn, Bryncroes, i gael gwared o'r dŵr oedd yn llifo tuag at y tŷ a diolchwyd am hyn.
Diolchwyd hefyd i Gyfoeth Naturiol Cymru, Y Cynghorydd Elin Hughes a Chyngor Gwynedd am gael coed i'w plannu ger Neuadd Goffa Sarn a'r Comin Bach ym Mryncroes – wrth wneud hyn mae'n datblygu cynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt.

102. **AWDURDOD I DALU**

**Awdurdodwyd y taliadau a ganlyn:**

| | |
|---|---|
| Llanw Llŷn – hysbyseb tendrau barbio | £12.60 (siec 200851) |
| Hurio Ystafell Gyfarfod: | |
| Festri Capel Hebron (3 gwaith) | £30.00 (siec 200852) |
| Festri Capel Rhydbach (3 gwaith) | £20.00 (siec 200853) |
| Canolfan Bryncroes (3 gwaith) | £30.00 (siec 200854) |
| Neuadd Goffa Sarn (3 gwaith) | £30.00 (siec 200859) |
| Nodwyd hefyd fod siec 200816 i'r Neuadd heb ei bacio yn ystod 2024 ac awdurdwyd cynnwys y taliad yma y siec 200859. | £30.00 (siec 200859) |
| HMRC | £105.00 (siec 200857) |
| Y Clarc | £420.00 (siec 200858 |
| Ad-dalu'r Clarc am inc i'r peiriant argraffu | £23.15 (siec 2008580 |

Adroddodd y Clarc hefyd fod angen adnewyddu 'Microsoft 365 Peronal' ar 1af Ebrill, 2025, ac fod y taliad hwn wedi ei wneud pan brynwyd y cyfrifiadur i fynd drwy Ddebyd Uniongyrchol o gyfrif personol y Clarc. **Awdurdodwyd** ad-dalu'r Clarc ar 1af Ebrill, 2025, pan fydd y taliad wedi mynd drwodd (siec 200860).

103. **CYNLLUN RHEOLI AHNE LLŶN**

**Cyflwynwyd** e-bost Tîm ANHE Llŷn yn rhoddi gwybodaeth ar Gyflwr yr AHNE ac hefyd y Cynllun Rheoli presennol – gellir gweld y ddogfen yma ar y wefan Llŷn AONB - Cynllun Rheoli'r AHNE Hefyd mae'r Tîm yn awyddus i gael barn cyffredinol ar faterion sy'n greiddiol i'r AHNE – "yn benodol:

- *Beth, yn eich barn chwi, yw'r heriau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol (yn cynnwys diwylliannol) sy'n wynebu'r ardal yn y 20-25 mlynedd nesaf ?*
- *Pa weithredoedd posibl allai helpu i fynd i'r afael a'r heriau hyn ?"*

**Penderfynwyd** peidio mynegi unrhyw farn am y tro, ond i ofyn i'r Cynghorydd Elin Hughes adrodd yn ôl i'r Cyngor ar unrhyw ddatblygiadau.

104. **CRYNODEB CYNLLUN PEILOT DWYFOR – CHWEFROR, 2025**

Anfonwyd copi o'r cryondeb i bob aelod gyda'r rhaglen.
Nodwyd fod poster eisoes i fyny yn yr hysbysfyrddau fod y "cynllun rwan yn hysbysebu hyblygrwydd i ystyried tai werth at £350,000. Mae hyn er mwyn ymateb i'r her mewn cymunedau lle mae'r canolrif pris prynu dros £300,000. Mae mwy o fanyldeb am hyn o fewn y diweddariad peilot."
**Penderfynwyd** rhoddi'r wybodaeth yma i fyny hefyd ar wefan y Cyngor.

105. **CRYNODEB DIGWYDDIAD TAI DAN ARWEINIAD CYMUNED**

**Cyflwynwyd** y wybodaeth a ganlyn gan Steffan Smith, Rheolwr Peilot Ailgartrefi a Fforddiadyedd:

"Mae cwmnïoedd ymchwil Alma Economics ac OB3 wedi penodi i werthuso effaith polisïau ailgartrefi a llety tymor byr, ag asesu effaith gwaith y peilot.
Mae'r gwerthusiad yma am redeg tan 2026.
Fel rhan o'r gwaith yma mae'r gwerthuswyr eisiau hel profiad a barn pobl ifanc - rhwng 18-35 mlwydd oed. Mae ganddyn nhw arolwg i rannu hefo pobl ifanc i gychwyn hyn.
Os gwelwch yn dda, fyswch chi yn fodlon i rannu'r arolwg yn lleol?
Mae'r gwerthuswyr hefyd am siarad gydag asiantaethau/grwpiau hefo cysylltiadau da gyda'r oedran yma. Fysa'n help mawr os oes gennych chi unrhyw awgrymiadau (a well byth cysylltiadau) ar gyfer grwpiau o'r fath?"

**Penderfynwyd** rhoddi'r wybodaeth yma hefyd ar y wefan.

106. **MEMORANDWM O DDEALLTWRIAETH**

**Cyflwynwyd** y Memorandwm a ganlyn gan Sian Parri a gofynnodd a fyddai'r Cyngor yn ystyried ei dderbyn:

"<u>MEMORANDWM O DDEALLTWRIAETH</u>
<u>CYNGHORAU CYMUNEDAU CYMRAEG GWYNEDD</u>

Drwy arwyddo'r ddogfen yma rydym yn cadarnhau fod gan Gyngor Cymdeithas Botwnnog <u>NOD STRATEGOL</u> o warchod a chynyddu niferoedd siaradwyr, aelwydydd a defnydd o'r Gymraeg.
Rydym yn ymuno efo rhwydwaith o Gynghorau Cymunedau Cymraeg sy'n rhannu'r Nod Strategol er mwyn –

- datgan ein cefnogaeth i weithredu argymhellion y Comisiwn Cymunedau Cymraeg a rhannu gweledigaeth strategaeth iaith Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050.
- cefnogi ein gilydd yn wyneb unrhyw her neu wrthwynebiad i'n Cyngor ni neu i Gyngor Cymuned arall weithredu yn unol â'r Polisi Iaith neu'r Memorandwm yma.
- galw ar y llywodraethau am fwy o reolaeth ac adnoddau i wneud penderfyniadau lleol er mwyn cryfhau'r Gymraeg fel iaith gymunedol.
- galw ar Gyngor Gwynedd hwyluso a chefnogi Cynghorau Cymuned a Thref mewn cymunedau Cymraeg i sefydlu a gweithredu Polisïau Gosod a Gwerthu Lleol ar bob tŷ cymdeithasol a fforddiadwy, gyda'r nod o gynyddu niferoedd siaradwyr, aelwydydd a defnydd o'r Gymraeg yn unol â nod strategaeth Cymraeg 2050.
- galw ar i Gyngor Gwynedd wario canran resymol o arian y premiwm a threthi twristiaeth ar gynlluniau i hyrwyddo'r Gymraeg yn y cymunedau lle mae'r arian yn cael ei hel ac sydd yn dioddef waethaf o holl effeithiau niweidiol y diwydiant.
- galw ar y llywodraethau i sicrhau bod pob cyfraith, polisi, cynllun, prosiect, gweithred, trefn a phenderfyniad yn arwain at nod strategol o fwy o siaradwyr, aelwydydd a defnydd y Gymraeg."

**Penderfynwyd** derbyn y Memorandwm a'r Cadeirydd i'w arwyddo ar ran y Cyngor.

107. **GOR-YRRU I LAWR ALLT MELLTEYRN**

**Mynegwyd** pryder unwaith yn rhagor am y gor-yrru sydd i lawr Allt Sarn Mellteyrn ac o'r troad ger Tafarn Pen-y-bont am Crugeran. Gan nad oes palmant ar yr allt lle mae

pobl ifanc yn cerdded i ddal y bws ysgol ac yna nifer o bobl ifanc yn y pentref ei hun yn disgwyl am y bws i fynd i'r ysgol, mae'r rhieni yn pryderu'n fawr am eu diogelwch. Diolchwyd i'r Cynghorydd Gareth Williams, Y Cynghorydd Sir, am ei waith diflino yn ceisio cael rhwystrau neu bresenoldeb yr Heddlu yn yr ardal. Bu 'Roadside Engagement Team' yn y pentref ar 14eg Tachwedd, 2024, rhwng 10.30 y.b. a 11.45 y.b. ond y teimlad oedd nad dyma'r amser pan fo y broblem ar ei gwaethaf. Nodwyd eu bod yn ymweld â'r pentref unwaith yn rhagor a gofynnwyd am iddynt bresenoli eu hunain rhwng 8 – 9 y.b. a 3.30 – 4.15 y.p. Deallwyd hefyd fod 'Gan Bwyll' am wneud arolwg 24ain am wythnos gyfan er gweld beth yw'r cyfartaledd cyflymdra yn yr ardal.

**Penderfynwyd**

(a) Derbyn y wybodaeth a gofyn i 'Gan Bwyll' am gael gwneud arolwg 24ain am wythnos gyfan er gweld beth yw'r cyfartaledd cyflymdra ar Allt Mellteyrn ac hefyd o'r troad o Benybont am Crugeran.

(b) Hefyd anfon llythyr at Brif Gwnstabl, Heddlu Gogledd Cymru, yn gofyn am iddo roi pwysau ar 'Gan Bwyll' gynnal yr arolwg ar y ddau safle ar fyrder ac hefyd annog y Tîm 'Roadside Engagement' i ymweld â'r pentref rhwng yr amseroedd a nodir uchod.

**108. Gwella'r amgylchedd** adroddodd Y Cynghorydd Elin Hughes fod trefniadau ar waith unwaith yn rhagor i gasglu ysbwriel yn yr ardal ac fod Clwb Ffermwyr Ifanc wedi cytuno i ymuno yn yr ymdrech y tro hwn.

**Diolchwyd** iddi am ei dyfalbarhad.

109. **SEFYLLFA ARIANNOL HYD 10fed MAWRTH, 2025**

Gan nad oedd unrhyw dderbyniadau/taliadau wedi digwydd yn ystod y mis adroddodd y Clarc y byddai'n paratoi mantolen hyd at ddiwedd Mawrth (diwedd y flwyddyn ariannol) ar gyfer y cyfarfod nesaf.